OPERATION ENCOMPASS

# Mae Ymgyrch Encompass yn gynllun cenedlaethol sy'n gweithredu ar y cyd ag ysgolion a phob heddlu.

"Mae plant sy'n byw mewn cartrefi lle mae cam-drin domestig, neu unigolion sy'n cael profiadau o gam-drin domestig yn eu perthnasoedd eu hunain yn ystod eu harddegau, yn gallu dioddef effeithiau negyddol o ganlyniad i'r profiad hwn."

"Mae plant sy'n cael profiadau o gam-drin domestig yn cael eu cydnabod yn ddioddefwyr cam-drin domestig drwy eu hawl eu hunain[1]."

"Rydym wedi sicrhau bod aelod o blith ein staff, (Arweinydd Diogelu Dynodedig) a elwir yn Oedolyn Allweddol, wedi'i hyfforddi yng ngweithdrefnau'r Ymgyrch Encompass. Mae hyn yn ein caniatáu i ddefnyddio'r wybodaeth mae'r heddlu wedi'i rhannu'n gyfrinachol gyda ni, i ddeall sut all cam-drin domestig effeithio ar blentyn ac yna cynnig cefnogaeth i'r plentyn/plant sydd dan ein gofal."

"Mae Ymgyrch Encompass yn golygu y bydd ein hysgol yn cael gwybod am achosion pan mae'r heddlu yn mynychu digwyddiad cam-drin domestig lle mae plentyn neu unigolyn ifanc sy'n mynychu ein hysgol yn perthyn i unrhyw un o'r rhai a oedd ynghlwm â'r digwyddiad, a hynny cyn dechrau'r diwrnod ysgol nesaf."

"Mae'r wybodaeth hon yn golygu y gallwn ddatblygu dealltwriaeth am ymddygiad plentyn a chefnogi'r plentyn hwnnw yn unol â'i anghenion neu ei ddymuniadau."

"Rydym yn awyddus i gynnig y gefnogaeth o'r radd uchaf bosibl i'n holl ddisgyblion ac rydym yn credu bod ein cysylltiad â'r Ymgyrch Encompass yn ein helpu ni i gyflawni hyn."

[1] Deddf Cam-drin Domestig 2021

www.operationencompass.org